Hawdd ei Ddeall

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# Ein cynllun ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl








Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Uchelgais Gogledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddarllen o '**Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**'.

**Mawrth 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Uchelgais Gogledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (drafft) - Ymgynghoriad Cyhoeddus

**Ebost:** northwalesregionaltransportplan@arup.com

**Ffôn:** 01172 405 350

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhiftrwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y cynllun yma .......... 4**

**Beth rydyn ni eisiau ei newid .......... 6**

Newidiadau i drenau .......... 7

Cefnffyrdd .......... 8

- Bws .......... 9
- Bysiau a thrafnidiaeth gymunedol .......... 10
- Cerdded, cadeiriau olwyn a beicio .......... 11
- Porthladdoedd a nwyddau .......... 12
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio .......... 13
- Mynediad i feysydd awyr .......... 14
- Cysylltiad digidol .......... 15
- Ymddygiad teithio .......... 17
- Gwell cysylltiadau .......... 18
- Cynllunio .......... 18

**Edrych dros y cynllun yma .......... 19**

**Dweud eich dweud .......... 20**

# Am y cynllun yma

Ni ydy **Uchelgais Gogledd Cymru**.



Rydyn ni'n cynnwys y 6 cyngor yng Ngogledd Cymru. A rhai prifysgolion a cholegau.




Rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd i wneud y cynllun yma.




Mae'n bwysig iawn bod pobl yn gallu mynd o gwmpas yn hawdd yng Ngogledd Cymru. Er enghraifft, fe ddylai hi fod yn hawdd i bobl:

- mynd i'r gwaith,
- mynd i'r ysgol,
- mynd i siopa
- a llawer o bethau eraill.



Rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma i wella trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru.




Mae’n dweud beth sydd angen ei wneud yn y 5 mlynedd nesaf.



Rydyn ni eisiau gwybod bethr ydych chi’n feddwl am y cynllun yman.

# Beth rydyn ni eisiau ei newid



Rydyn ni eisiau iddo fod yn fwy diogel i gerdded, beicio, defnyddio cadeiriau olwyn a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.



Rydyn ni eisiau i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn rhatach.



Rydyn ni eisiau i fysiau a threnau redeg yn amlach ac ar amser.



Rydyn ni eisiau i fysiau a threnau fod yn well i'r amgylchedd.



Rydyn ni eisiau iddi fod yn haws cynllunio teithiau gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a ffonau.



Rhai o’r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud ydy:

## Newidiadau i drenau



Mae rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru yn cael eu rhedeg gan Lywodraeth y DU. Felly does gan gynghorau lleol ddim unrhyw reolaeth drostyn nhw.



Ond rydyn ni eisiau gweld y pethau yma yn gwella:

- Prif Reilffordd Gogledd Cymru a Gorsaf Caer
- Llinell Borderlands a Padeswood
- Cyfnewidfa Gorsaf Shotton
- Gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- Llinell Amwythig – Wrecsam – Caer
- Llinellau Dyffryn Conwy ac Arfordir y Cambria

# Cefnffyrdd



Mae hyn yn meddwl prif ffyrdd mawr iawn. Maen nhw'n cysylltu lleoedd i'w gwneud hi'n haws i bobl deithio pellteroedd hir, ac i ddosbarthu nwyddau.

Dydyn ni ddim yn rheoli'r ffyrdd yma. Ond rydyn ni eisiau gweld:



- y ffyrdd yn cael eu gwella. Felly maen nhw'n fwy diogel ac yn llai prysur.



- gwell cysylltiadau ar draws Afon Menai.


# Bws




Rydyn ni eisiau i fysiau fod yn well i’r amgylchedd.



Rydyn ni eisiau mwy o fysiau yn mynd i fwy o leoedd.




Fe ddylai fod yna fysiau o leiaf bob awr rhwng y prif drefi. Rhwng 7am a 10pm.




Fe ddylai bysiau gysylltu pentrefi â threfi mawr o leiaf 3 gwaith y dydd.



Fe fyddwn ni’n cefnogi Llywodraeth Cymru gyda’r ffordd mae gwasanaethau bysiau yn cael eu eu rheoli.

# Bysiau a thrafnidiaeth gymunedol




Mae coetsys yn gallu bod yn ddefnyddiol ar gyfer teithiau hir. Ac ar gyfer llwybrau lle nad oes yna fysiau.




Rydyn ni'n cefnogi'r gwasanaethau o'r enw **'Fflecsi'** a '**Ring and Ride**'. Mae'r rhain yn wasanaethau trafnidiaeth sy'n gallu eich codi a'ch gollwng mewn lleoedd sy'n haws i chi.




Rydyn ni eisiau i '**Sherpa'r Wyddfa**' barhau i fynd. Mae hwn yn wasanaeth bws sy'n teithio o amgylch Yr Wyddfa. Rydyn ni eisiau i'r gwasanaeth yma gysylltu â bysiau a threnau eraill yn well.



Rydyn ni eisiau mwy o wasanaethau bysiau rhwng trefi a dinasoedd lle nad oes trenau

# Cerdded, cadeiriau olwyn a beicio



Rydyn ni eisiau iddi fod yn haws gwneud y pethau yma.

Rydyn ni eisiau gweld newidiadau fel:



- Gwneud hi'n gyflymach ac yn fwy diogel i wneud y pethau yma.



- Cefnogi llogi beiciau ac offer arall mewn ffordd ddiogel.  Ac mae pobl yn gallu ei fforddio.

# Porthladdoedd a nwyddau



Mae hyn yn meddwl symud cynhyrchion ar longau a loriau.

Rhai o'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gweld ydy:



- Gwella porthladdoedd a chael mwy o swyddi yno.



- Gwneud gwasanaethau i yrwyr loriau mawr yn fwy diogel ac yn haws.



- Gwella trwy ddefnyddio tanwydd glân. Er enghraifft, cerbydau trydan.



- Defnyddio mwy o reilffyrdd i symud cynhyrchion. Mae hyn yn well i'r amgylchedd.

## Ffyrdd, strydoedd a pharcio



Rydyn ni eisiau i bobl deithio mewn ffyrdd sy'n lanach i'r amgylchedd.



Ond rydyn ni'n gwybod bod angen gwneud llawer o deithiau mewn car o hyd. Er enghraifft, mewn ardaloedd cefn gwlad.



Rydyn ni eisiau i ffyrdd fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da.



Fe fyddwn ni'n helpu pobl i feddwl am ffyrdd gwyrddach o deithio. Mae hyn yn meddwl teithio sy'n well i'r amgylchedd.



Rydyn ni eisiau i'n strydoedd a'n hardaloedd deimlo'n ddiogel. Fe fyddwn ni'n edrych ar ein meysydd parcio a'n costau.




Fe fyddwn ni'n cefnogi cynlluniau rhannu ceir. Dyma lle mae pobl sy'n teithio i'r un lle, yn teithio gyda'i gilydd mewn 1 car.

## Mynediad i feysydd awyr



Mae 3 maes awyr mawr yn agos at Ogledd Cymru. Maen nhw yn Lerpwl, Manceinion a Birmingham.



Mae yna hefyd Faes Awyr Môn ar gyfer teithiau byr.



Rydyn ni eisiau ei gwneud hi'n haws teithio i feysydd awyr.

# Cysylltiad digidol



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i lawer mwy o bobl weithio i ffwrdd o'u swyddfa.



Fe fydd hyn yn helpu i leihau traffig a llygredd.



Felly mae'n bwysig bod pobl yn gallu mynd ar-lein a defnyddio cyfrifiaduron yn hawdd.

Rhai newidiadau rydyn ni eisiau eu gweld ydy:



- Gwell canolfannau gweithio lleol.



- Mwy o hyfforddiant ar gyfrifiaduron a gwasanaethau ar-lein.



- Gwell gwybodaeth ar-lein am wasanaethau ac amseroedd trafnidiaeth gyhoeddus.

## Ymddygiad teithio



Rydyn ni eisiau i bobl gael mwy o ddewisiadau teithio.



Rydyn ni eisiau i bobl wneud dewisiadau da am deithio. Er enghraifft, meddwl am yr amgylchedd.



Rydyn ni eisiau i bobl gael y wybodaeth maen nhw ei angen am deithio yn hawdd.




Rydyn ni eisiau i ymwelwyr ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi twristiaeth yn yr ardal.

## Gwell cysylltiadau




Mae pobl yn aml yn gorfod defnyddio mwy nag 1 math o drafnidiaeth ar gyfer taith. Fe ddylai fod yn haws gwneud hynny.




Mae angen i'r gwahanol fathau o drafnidiaeth gysylltu'n dda.




Mae hyn yn meddwl tocynnau yn cael eu defnyddio ar fwy nag un math o drafnidiaeth. Ac amserlenni gwell.

## Cynllunio



Mae angen i gynllunio ar gyfer dinasoedd a threfi feddwl mwy am drafnidiaeth a chysylltiadau.


# Edrych dros y cynllun yma



Fe fyddwn ni'n edrych pa mor dda  mae nodau'r cynllun yma yn cael eu cyflawni.



Fe fydd cyfarfodydd rheolaidd am ddatblygiadau a diweddariadau.




Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ac adroddiad mwy bob 3 blynedd.

# Dweud eich dweud



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n ei feddwl am y cynllun yma.



Rydych chi’n gallu ein ffonio a siarad â ni ar: 01172 405 350.




Rydych chi hefyd yn gallu llenwi’r holiadur ar-lein yma: https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/




Rydych chi'n gallu lawrlwytho'r ffurflen gyda'r cwestiynau yma: Drafft: Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.



Yna e-bostiwch ef yn ôl at:
northwalesregionaltransportplan@arup.com



Rydyn ni hefyd yn gallu postio holiadur i chi. Ffoniwch ni ar 01172 405 350. Neu anfonwch e-bost i ni yn: northwalesregionaltransportplan@arup.com